Public Document Pack

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Committee Room 2 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 29 Mehefin 2011**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:


**Steve George**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8242
stephen.george@wales.gov.uk

**Olga Lewis**
Dirprwy Clerc y Pwyllgor
029 2089 8154
Olga.lewis@wales.gov.uk


## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### 2. Rôl y Pwyllgor a'i ddulliau gweithredu yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (Tudalennau 1 - 10)

### 3. Offerynnau nad ydynt yn codi unrhyw faterion i fod yn destun adroddiad o dan Reolau Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

Gellir dod o hyd i destun yr offerynnau sy'n dilyn y weithdrefn negyddol ac na fyddai wedi codi materion i fod yn destun adroddiad, yma:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-sub/bus-legislation-sub-annulment.htm

**CLA6 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Dirymu) (Cymru) 2011**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 14 Mehefin 2011. Fe'u gosodwyd ar 16 Mehefin 2011. Yn dod i rym ar 7 Gorffennaf 2011

**CLA7 - Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg y Barri a Chorfforaeth**

**Addysg Bellach Coleg Glan Hafren (Diddymu) 2011**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 14 Mehefin 2011. Fe'i gosodwyd ar 17 Mehefin 2011. Yn dod i rym ar 1 Awst 2011

<u>Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol</u>

**CLA5 - Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed yn 2011. Fe'i gosodwyd heb nodi'r dyddiad. Yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2011

**CLA8 - Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed heb nodi'r dyddiad. Fe'u gosodwyd heb nodi'r dyddiad. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2011

**CLA9 - Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru) 2011**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed heb nodi'r dyddiad. Fe'i gosodwyd heb nodi'r dyddiad. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2011

## 4. Offerynnau sy'n codi materion a fydd yn destun adroddiad i'r Cynulliad o dan Reolau Sefydlog 21.2 neu 21.3

<u>Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol</u>

**Dim**

<u>Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol</u>

**Dim**

## 5. Dyddiad y cyfarfod nesaf

## Papurau i'w nodi:
CSI(4)-01-11- Report of the meeting 22 June 2011

I: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Wrth: Clerc y Pwyllgor

Dyddiad: 27 Mehefin 2011

Cyfeirnod y papur: CLA(4)-02-11(p1)

**Rôl y Pwyllgor a dulliau o weithio yn ystod y Pedwerydd Cynulliad**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn nodi rôl a chylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Mae'n egluro:

- y swyddogaethau y mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor ymgymryd â hwy; a
- swyddogaethau eraill, dewisol y gall y Pwyllgor ymgymryd â hwy os yw'n dewis gwneud hynny.

2. Mae'r papur hwn hefyd yn nodi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth ac yn gwahodd Aelodau i fynegi eu barn ynghylch beth fyddai'r ffordd orau i'r Pwyllgor ymgymryd â'i swyddogaethau dewisol.

**Cylch gwaith y Pwyllgor**

3. Cylch gwaith y Pwyllgor fel y'i cytunwyd yn y Cyfarfod Llawn yw:

> … cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu mewn perthynas â'r rheini.

4. Mae'r cylch gwaith hwn yn cynnwys swyddogaethau dewisol a rhai nad ydynt yn ddewisol. Trafodir y rhain ymhellach isod.

Dyletswyddau nad ydynt yn rhai dewisol

5. Mae Rheol Sefydlog 21.2 yn gosod dyletswydd ar y Pwyllgor i ystyried yr holl is-ddeddfwriaeth berthnasol a osodwyd gan y Llywodraeth, ei phrofi yn erbyn y seiliau penodol a restrwyd yn y Rheolau Sefydlog, ac os bydd gan y Pwyllgor unrhyw bryderon, cyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o fewn 20 niwrnod. Nodir y Rheol Sefydlog llawn a'r seiliau adrodd penodol yn Atodiad A i'r papur hwn.

6. Yn gyffredinol, mae'r seiliau ar gyfer cyflwyno adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 yn faterion a allai godi amheuaeth ynghylch cyfreithlondeb neu gywirdeb cyfreithiol y ddeddfwriaeth sydd dan sylw. Am y rheswm hwn, cyfeirir atynt yn aml fel materion technegol, er eu bod yn aml yn ymwneud â

materion o egwyddor gyfreithiol ynghyd â materion drafftio mwy cyffredin. Dyma waith bara menyn y Pwyllgor.

Swyddogaethau dewisol

7. Hefyd, mae gan y Pwyllgor nifer o swyddogaethau dewisol. Maent fel a ganlyn:

*Rheol Sefydlog 21.3*

8. Caiff y Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar nifer o faterion eraill sy'n ymwneud ag Offerynnau Statudol unigol. Cyfeirir at yr adroddiadau hyn fel "**adroddiadau ar rinweddau**". Gan amlaf, cyflwynir adroddiadau ar ddarnau o is-ddeddfwriaeth o dan y Rheol Sefydlog hon gan fod y Pwyllgor yn credu:

> *"…ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."*

9. Mae hyn yn rhoi modd i'r Pwyllgor dynnu sylw at is-ddeddfwriaeth nad yw'n achosi pryder ar seiliau technegol ond sy'n codi materion eraill y mae'r Pwyllgor yn credu y dylid tynnu sylw'r Cynulliad atynt.

10. Nid oes rheolau pendant ynghylch beth y gallai'r materion hyn fod. Gall fod mor syml â nodi bod mater yn wleidyddol gynhennus neu'n wleidyddol arwyddocaol. Fel arall, gall fod oherwydd ei fod yn codi materion sy'n ymwneud â hawliau unigolion neu, waeth pa mor ganmoladwy yw ei bwriadon polisi, nad yw is-ddeddfwriaeth yn gweithredu'r bwriadon hyn yn y ffordd a honnwyd. Mae hyn hefyd wedi cael ei ddefnyddio i dynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith bod pŵer galluogi penodol wedi cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.

*Rheol Sefydlog 21.7*

11. Mae Rheol Sefydlog 21.7 yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried ystod o faterion a chyflwyno adroddiadau arnynt, gan gynnwys pwerau is-ddeddfwriaethol arfaethedig ym Miliau'r Cynulliad a Deddfau Seneddol y DU a deddfwriaeth ddrafft y mae'r Llywodraeth yn ymgynghori arnynt. Mae hefyd yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried "*unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru*" a chyflwyno adroddiad arno. Mae'r pŵer penodol hwn yn rhoi'r rhyddid i'r Pwyllgor ystyried materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol a chynnal ymchwiliadau i'r materion hyn os yw'n dymuno gwneud hynny.

*Rheolau Sefydlog 21.8 – 21.11*

12. Mae hon yn swyddogaeth newydd yn y Rheolau Sefydlog. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor ystyried:

*"...deddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu â swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol er mwyn ystyried a yw'n cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd."*

13. Os bydd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch a gydymffurfir ag egwyddor sybsidiaredd, gall ysgrifennu at y pwyllgorau seneddol sy'n ymdrin â'r mater hwn er mwyn i'r pwyllgoau hynny gynnwys y pryderon hynny mewn barn resymedig ar gyfer awdurdodau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd.

14. Mae Rheol Sefydlog 21.11 yn caniatáu i'r Pwyllgor ddirprwyo ei swyddogaethau o dan y Rheol Sefydlog hon i Gadeirydd y Pwyllgor, er mwyn ei alluogi i weithredu ar ei ran yn ystod toriad y Cynulliad. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod toriad yr haf oherwydd y cyfyngiadau amser y cyfeirir atynt isod. Bydd gofyn bod Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

15. Bydd y Pwyllgor am ystyried a yw am arfer y disgresiwn o ddirprwyo ei swyddogaethau i Gadeirydd y Pwyllgor yn ystod wythnosau pan na fydd y Cynulliad yn eistedd.

*Swyddogaethau eraill*

16. Ynghyd â'r swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 21, mae gan y Pwyllgor hefyd gylch gwaith ehangach i "ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu mewn perthynas â'r rheini." Gallai hyn gynnwys swyddogaethau penodol y Gweinidogion, fel cyfrifoldebau Prif Weinidog Cymru dros berthnasau â gweddill y DU ac Ewrop ond yn caniatáu i'r Pwyllgor rhyddid eang i ystyried materion trawsbynciol sydd â goblygiadau cyfansoddiadol.

17. Hefyd, gall fod yn ofynnol bod y Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, yn ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y caiff eu cyfeirio ato gan y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 29.4

**Trefniadau Pwyllgor ar gyfer ystyried offerynnau statudol**

18. Rheolir ystyriaeth y Pwyllgor o offerynnau statudol o dan Reol Sefydlog 21.3. Fodd bynnag, mae'r nifer helaeth o offerynnau statudol y mae'n rhaid i'r Pwyllgor eu hystyried (bron i 600 yn y Trydydd Cynulliad) ynghyd â'r amser cyfyngedig sydd ar gael i wneud hynny (o fewn 20 diwrnod o'r dyddiad y cafodd ei osod) yn golygu, yn gyffredinol, bod yn rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod bob wythnos pan fo'r Cynulliad yn eistedd.

19. Bydd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor yn edrych ar bob offeryn statudol ac yn ystyried a yw'n codi unrhyw faterion o bryder o dan Reol Sefydlog 21.2. Os bydd unrhyw faterion yn codi, bydd y cynghorwyr cyfreithiol yn paratoi adroddiad drafft i'r Pwyllgor ac ar yr un pryd yn

gwahodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno'i sylwadau. Rhoddir yr adroddiad drafft ac ymateb y Llywodraeth ar agenda'r cyfarfod nesaf i'w ystyried gan y Pwyllgor. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cael copïau o'r adroddiad drafft, yr Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef fel rhan o bapurau'r cyfarfod.

20. Mae ystyried materion sy'n gysylltiedig â "rhinweddau" o dan Reol Sefydlog 21.3 yn dilyn proses debyg ond cyfochrog. Ystyrir yr offerynnau gan Glerc y Pwyllgor, y cynghorwyr cyfreithiol neu'r staff ymchwil. Os bydd unrhyw faterion yn codi, darperir adroddiad drafft i'w ystyried gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Fodd bynnag, ni fydd y Llywodraeth yn cael ei gwahodd i gyflwyno sylwadau ar adroddiadau rhinweddau fel arfer. Gellir gwneud hynny os bydd yr adroddiad "rhinweddau" yn codi mater technegol, fel gweithredu deddfwriaeth yr UE mewn ffordd amhriodol, er enghraifft.

21. Rhestrir unrhyw offerynnau nad oes pwyntiau adrodd yn codi mewn perthynas â hwy ar agenda'r Pwyllgor, a darperir linc i'r offeryn ar gyfer yr Aelodau. Fodd bynnag, ni ddarperir yr offerynnau eu hunain fel papurau pwyllgor fel arfer.

22. Yn gyffredinol, caiff yr agenda ar gyfer y rhan hwn o'r cyfarfod ei rannu'n ddau:

- Is-ddeddfwriaeth nad oes pwyntiau adrodd yn codi mewn perthynas â hi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
- Is-ddeddfwriaeth y dylid cyflwyno adroddiad arni i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Caiff y pynciau hyn eu rhannu'n ddau is-bwnc:

- Is-ddeddfwriaeth penderfyniad negyddol;
- Is-ddeddfwriaeth penderfyniad cadarnhaol.

23. Ar ôl i'r Pwyllgor gymeradwyo adroddiad ar Offerynnau Statudol, caiff ei osod gerbron y Cynulliad fel rhan o adroddiad y pwyllgor. Yn achos adroddiadau ar rinweddau (mae llai ohonynt yn cael eu paratoi), bydd Clerc y Pwyllgor hefyd yn anfon copïau at holl Aelodau'r Cynulliad yn uniongyrchol er gwybodaeth a chânt eu cynnwys ar agenda'r Cyfarfod Llawn os bwriedir cynnal dadl ar yr offeryn. Hefyd, efallai bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog cyfrifol gan ofyn am ei farn ar unrhyw faterion pellach a godwyd gan y Pwyllgor wrth iddo drafod offeryn.

*Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Pwyllgor drafod offeryn statudol?*

24. Ar ôl i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad, bydd ei rôl o drafod offerynnau statudol o dan y Rheolau Sefydlog yn dod i ben. Fodd bynnag, pan gaiff offeryn ei drafod yn y Cyfarfod Llawn (oherwydd bod Aelod wedi cyflwyno cynnig i'w ddirymu neu oherwydd bod angen ei wneud drwy benderfyniad

cadarnhaol gan y Cynulliad), mae'n arferol bod Cadeirydd y Pwyllgor yn siarad yn y ddadl i dynnu sylw'r Cynulliad at adroddiad y Pwyllgor.

**Trefniadau gwaith mewn perthynas â phwerau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 21.7**

25. Mae gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 21.7 yn ddewisol ac, yn rhannol seiliedig ar alw. Ynghyd â phwerau pellach mewn perthynas â chraffu ar rai mathau penodol o is-ddeddfwriaeth, y pwerau mwyaf nodedig y mae'n rhoi i'r Pwyllgor yw'r rhai sy'n ei ganiatáu i:

- graffu ar ddarpariaethau arfaethedig sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ym Miliau'r Cynulliad a Biliau Seneddol – RhS21.7(ii); ac
- edrych ar "unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru." - RhS21.7(v).

<u>Is-ddeddfwriaeth o fewn Biliau'r Cynulliad a Biliau Seneddol (RhS21.7ii)</u>

26. Roedd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Trydydd Cynulliad yn craffu ar y darpariaethau is-ddeddfwriaeth ym mhob un o Fesurau'r Cynulliad ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Wrth wneud hynny, roedd fel arfer yn cymryd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am y Mesur ond, yn gyffredinol, nid oedd yn cymryd tystiolaeth gan eraill. Ystyriwyd mai uchelfraint y pwyllgor deddfwriaeth a oedd yn gyfrifol am graffu ar y Mesur oedd hon. Gan fod gan y Pedwerydd Cynulliad fwy o gymhwysedd deddfwriaethol o lawer na'r Trydydd Cynulliad, ymddengys yn debygol y bydd yr agwedd hon ar waith y Pwyllgor yn cynyddu.

27. O bryd i'w gilydd, roedd y Pwyllgor hefyd yn trafod Biliau Senedd y DU a oedd yn effeithio ar bwerau'r Cynulliad neu Weinidogion Cymru neu a oedd â goblygiadau penodol i Gymru. Fodd bynnag, roedd anawsterau ymarferol wrth geisio trafod y Biliau hyn (o fewn amserlen Seneddol dynn iawn, fel arfer) a chyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn amser i gael cyfle rhesymol i ddylanwadu ar gynnwys y Bil. Mae pwerau newydd y Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd llai i'r Pwyllgor ei ystyried yn y maes hwn nag yn y Trydydd Cynulliad.

28. Bydd y Pwyllgor am ystyried ei ddull cyffredinol o graffu ar bwerau is-ddeddfwriaeth arfaethedig mewn Biliau'r Cynulliad a Biliau'r DU.

<u>Pŵer i ystyried materion deddfwriaethol cyffredinol eu natur - RhS21.7(v)</u>

29. Mae angen ystyried y pŵer hwn, ynghyd â chylch gwaith y Pwyllgor o ystyried materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol. Maent yn rhoi rhyddid eang i'r Pwyllgor ystyried materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol a chynnal ymholiadau i'r materion hyn os yw'n dymuno gwneud hynny.

Cynhaliodd y Pwyllgor blaenorol nifer o ymchwiliadau tebyg ac rydym yn rhagweld y bydd y Pwyllgor newydd am wneud hynny hefyd maes o law.

30. Bydd y Pwyllgor am ystyried ei ddull o ymdrin ag ymholiadau'r Pwyllgor yn y dyfodol. Mae nifer o ffynonellau posibl o syniadau ar gyfer gwaith craffu, gan gynnwys:

- awgrymiadau'r Aelodau sy'n seiliedig ar ei phrofiadau a diddordebau gwleidyddol a phersonol;
- awgrymiadau sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o faterion o bryder sy'n dod i'r amlwg (gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol ac ymrwymiadau maniffesto) a ganfuwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil, fel arfer;
- awgrymiadau sy'n seiliedig ar faterion a godwyd yn ystod trafodion y Cynulliad a'i bwyllgorau (gan gynnwys y broses deisebau cyhoeddus, neu o ganlyniad i benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn;
- gofyn am syniadau gan randdeiliaid neu grwpiau sydd â diddordeb yng ngwaith y Pwyllgor.

31. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio rhestr o bynciau posibl y gellid cynnal ymchwiliad mewn perthynas ag hwy i'w hystyried gan y Pwyllgor. Mae hon wedi cael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor ar wahân. Hefyd, efallai fydd y Pwyllgor am ystyried comisiynu gwaith pellach gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad ar feysydd posibl y gellid ymchwilio iddynt.

**Trefniadau gweithio mewn perthynas â phwerau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 21.8**

32. Bydd y Pwyllgor yn ystyried materion sy'n ymwneud â sybsidiaredd, sef rôl yr oedd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn ymgymryd ag ef yn y Trydydd Cynulliad. Mae'n deillio o brotocol i Gytuniad Lisbon sy'n cyfeirio'n benodol at rôl deddfwrfeydd 'rhanbarthol'. Mae Erthygl 6 o'r Ail Brotocol i Gytuniad Lisbon yn datgan: *" It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers."*

33. Anfonir copïau o'r Memoranda Esboniadol mewn perthynas â deddfwriaeth Ewropeaidd drafft at staff y Cynulliad gan staff cyfatebol yn San Steffan sy'n cynghori pwyllgorau Ewropeaidd dau Dŷ Senedd y DU a gan Lywodraeth Cymru. Bydd staff cyfreithiol ac ymchwil y Cynulliad yn eu hadolygu ac yn tynnu sylw'r Pwyllgor at faterion y bydd am eu hystyried.

34. Mae amserlenni tyn iawn yn nodweddiadol o'r broses; caiff deddfwrfeydd yr Aelod-wladwriaethau wyth wythnos i ymateb i'r hysbysiad o gynigion deddfwriaethol. Oherwydd bod yn rhaid i'r Tŷ perthnasol gytuno ar unrhyw bryderon a gaiff eu codi drwy Farn Resymedig ar ôl i'r pwyllgor eu trafod - a bydd sylwadau gan ddeddfwriaethau datganoledig yn goleuo'r

drafodaeth hon - mae'r cyfnod sydd ar gael ar gyfer ystyriaeth gan y Cynulliad yn fyrrach o lawer nag wyth wythnos.

35. Yn ffodus, nid yw materion o bryder o dan y mater cyfyngedig o sybsidiaredd yn codi'n aml iawn, ond mae'n rhaid bod gan y Pwyllgor y gallu i ymateb yn gyflym i gynigion wrth iddynt godi. Caiff papur mwy manwl ei baratoi i'r Pwyllgor ar sybsidiaredd.

**Argymhelliad**

36. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn a:

- nodi a yw'n fodlon, ar hyn o bryd, â'r trefniadau gweithio ar gyfer is-ddeddfwriaeth a amlinellwyd ym mharagraffau 10 i 16;
- ystyried a yw am ddirprwyo ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21.8 i Gadeirydd y Pwyllgor am wythnosau pan nad yw'r Cynulliad yn eistedd;
- ystyried ei ddull cyffredinol o graffu ar bwerau is-ddeddfwriaeth arfaethedig ym Miliau'r Cynulliad a Biliau'r DU; a
- ystyried dull o drafod materion deddfwriaethol cyffredinol, gan gynnwys materion posibl y gellid cynnal ymchwiliad mewn perthynas â hwy.

**Steve George**
**Clerc y Pwyllgor**

**RHEOL SEFYDLOG 21 – Pwyllgor neu Bwyllgorau Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

21.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 21 yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 21 fel "pwyllgor cyfrifol").

**Swyddogaethau**

21.2 Rhaid i bwyllgor cyfrifol ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires;
(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;
(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;
(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;
(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;
(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;
(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;
(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;
(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;
(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu
(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

21.3 Caiff pwyllgor cyfrifol ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn

gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;
(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;
(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;
(iv) ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu
(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

21.4 Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

21.5 Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 21.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

21.6 Nid yw Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 yn gymwys i Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig na drafft o dan Reol Sefydlog 25 nac i is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig o dan Reol Sefydlog 28.

21.7 Caiff pwyllgor cyfrifol ystyried y canlynol a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad ac eithrio is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig o dan Reol Sefydlog 28;
(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Biliau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;
(iii) canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y Cynulliad;
(iv) defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn;
(v) unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru; neu
(vi) deddfwriaeth ddrafft sy'n destun ymgynghoriad.

21.8 Caiff pwyllgor cyfrifol ystyried deddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y

Cynulliad neu â swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol er mwyn ystyried a yw'n cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd.

21.9 Os bydd pwyllgor cyfrifol yn credu nad yw deddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd yn cydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd, caiff wneud sylwadau ysgrifenedig, ar ran y Cynulliad, i bwyllgor perthnasol Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi, a hynny er mwyn cynnwys y sylwadau hynny mewn resymedig i'w chyflwyno gan y pwyllgor hwnnw i awdurdodau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd.

21.10 Os bydd pwyllgor cyfrifol yn gwneud sylwadau ysgrifenedig yn unol â Rheol Sefydlog 21.9, rhaid iddo osod copi o'r sylwadau ysgrifenedig hynny gerbron y Cynulliad.

21.11 Caiff pwyllgor cyfrifol, at ddiben galluogi arfer ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21.9 yn ystod unrhyw wythnos pan na fydd y Cynulliad yn cwrdd, ddirprwyo'r swyddogaethau hynny i gadeirydd y pwyllgor cyfrifol, a rhaid i'r cadeirydd hwnnw, os caiff y swyddogaethau hynny eu harfer, hysbysu'r pwyllgor cyfrifol am y ffaith honno cyn gynted â phosibl.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Adroddiad: CSI(4)-01-11 : 22 Mehefin 2011**

**Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad fel a ganlyn:**

**Offerynnau Statudol a osodwyd cyn neu yn ystod diddymiad y Trydydd Cynulliad**

Ystyriodd y Pwyllgor ar yr Offerynnau Statudol a gafodd eu gosod gerbron y Trydydd Cynulliad yn rhy hwyr i ganiatáu iddynt gael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar y pryd.

Roedd yr Offerynnau dan sylw i gyd mewn grym bellach ac roedd yr amser y gallai Aelodau'r Cynulliad geisio eu diddymu wedi pasio. Er hynny, cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y ddeddfwriaeth hon, lle mae'n berthnasol, o dan Reol Sefydlog 21.3.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd ohebiaeth gan Mr Ian Medlicott, Swyddog Polisi Cangen Cymru o Gymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr Cynghorau, yn mynegi pryder ynghylch cyflwyno offerynnau statudol ar adeg pan nad oedd yn bosibl craffu arnynt yn effeithiol.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru i gyfleu pryderon Mr Medlicott, ynghyd â phryderon y Pwyllgor, ac ysgrifennu at Mr Medlicott i ddiolch iddo am ei ddiddordeb.

**Offerynnau'r Trydydd Cynulliad nad ydynt yn arwain at faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**CA587 – Rheoliadau'r Rhaglen Mesur Plant (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 28 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 1 Awst 2011

**CA588 –Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.

**Fe'u gwnaed ar:** 29 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 23 Mehefin 2011

**CA589 – Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed ar:** 28 Mawrth 2011.
**Fe'i gosodwyd ar:** 30 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 1 Ebrill 2011

**CA590 – Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 29 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 21 Ebrilll 2011

**CA591 – Rheoliadau Hadau Llysiau (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 29 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 22 Ebrill 2011

**CA592 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed ar:** 29 Mawrth 2011.
**Fe'i gosodwyd ar:** 30 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 22 Ebrill 2011

**Offerynnau'r Trydydd Cynulliad sy'n arwain at faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**CA581 – Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 28 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 28 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 29 Mawrth 2011

Yn ychwanegol at yr adroddiad a argymhellir o dan Reol Sefydlog 21.3, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn pwysleisio bod y meini prawf ar gyfer y dewis o weithdrefn yn yr achos hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac y gallent gael eu defnyddio yn y dyfodol i lywio penderfyniadau tebyg.

**CA582 – Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.

**Fe'u gwnaed ar:** 24 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 29 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 11 Ebrill 2011

**CA583 – Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 24 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 29 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 11 Ebrill 2011

**CA593 – Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 29 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 31 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 21 Ebrilll 2011

**CA594 – Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 29 Mawrth 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 31 Mawrth 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 1 Mehefin 2011

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiadau o dan Reol Sefydlog 21.2 a Rheol Sefydlog 21.3 ar yr offerynnau statudol hyn, sydd wedi'u hatodi fel Atodiadau 1-5.

**Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**CSI3 – Gorchymyn Tenantiaeth Sicr (Diwygio'r Trothwy Rhent) (Cymru) 2011**
Gweithdrefn: Negyddol.
Fe'u gwnaed ar: 2 Mehefin 2011.
Fe'u gosodwyd ar: 6 Mehefin 2011.
Dyddiad dod i rym: 1 Rhagfyr 2011

**CSI4 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 8 Mehefin 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 9 Mehefin 2011.
**Dyddiad dod i rym:** Yn unol â rheoliad 3.

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**CSI1 – Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011**
**Gweithdrefn:** Gadarnhaol.
**Fe'u gwnaed ar:** Nid yw wedi'i nodi**.**
**Fe'u gosodwyd ar:** Nid yw wedi'i nodi.
**Dyddiad dod i rym:** 1 Gorffennaf 2011.

**CSI2 – Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011**
**Gweithdrefn:** Gadarnhaol.
**Fe'u gwnaed ar:** Nid yw wedi'i nodi**.**
**Fe'u gosodwyd ar:** Nid yw wedi'i nodi.
**Dyddiad dod i rym:** 29 Mehefin 2011

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiadau o dan Reol Sefydlog 21.2 a Rheol Sefydlog 21.3 ar yr offerynnau statudol hyn, sydd wedi'u hatodi fel Atodiadau 6-7.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Offerynnau Statudol
**22 Mehefin 2011**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**(CSI(4)-01-11)**

**CA581**

**Adroddiad y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Teitl: Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn**: **Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn atodol i Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 ("Rheoliadau Cymru a Lloegr"). Maent yn gwneud diwygiadau i nifer o offerynnau statudol Cymru at ddibenion trosi, o ran Cymru, Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t3). Maent hefyd, at yr un diben, yn dirymu un offeryn statudol Cymru.

**Materion Technegol: Craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**Rhinweddau: Craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Ni roddwyd y Rheoliadau hyn ar waith yng Nghymru o fewn y fframwaith amser a bennwyd gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig ("y Gyfarwyddwb ddiwygiedig"). Roedd yn ofynnol ar y DU (gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig) i drosi'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig erbyn 12 Rhagfyr 2010. Ni wnaeth Llywodraeth y DU hynny erbyn y terfyn amser. Mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wedi ysgrifennu at y Llywydd i'w hysbysu am y rhesymau dros y diffyg cydymffurfio. Y prif reswm oedd bod angen aros tan i Reoliadau Cymru a Lloegr gael eu gwneud gan mai'r Rheoliadau hynny yn bennaf a oedd yn trosi'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig. Mae'r Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011("y Rheoliadau Cymreig") yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i Offerynnau Statudol Cymru a wnaed yn flaenorol gan Weinidogion Cymru. Roedd angen am ddeddfwriaeth ar wahân gan fod rhaid i offeryn Cymru gael ei wneud yn ddwyieithog, ac nid oedd Llywodraeth y DU, am resymau

gweinyddol yng nghyd-destun yr amserlen ar gyfer trosi, yn fodlon cynnwys diwygiadau o'r fath yn Rheoliadau Cymru a Lloegr.

(Rheol Sefydlog 21.3 (iv) – ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol.)

2. Gellir gwneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol neu gadarnhaol. Y sawl sy'n gwneud y rheoliadau (Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) sydd â'r disgresiwn o ran dewis pa weithdrefn i'w defnyddio, ac nid oes unrhyw feini prawf wedi'u nodi mewn cyfraith ar gyfer hynny.

   Gwnaed y rheoliadau penodol hyn gan dramgwyddo ar y rheol 21 niwrnod. Nodwyd y rhesymau dros y tramgwydd yn llythyr y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar y pryd at y Llywydd, dyddiedig 28 Mawrth 2011. Roedd ei llythyr hefyd yn cynnig yr eglurhad a ganlyn dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol yn yr achos hwn:

   "…*the choice of procedure has depended on the nature of the provision being made rather than procedural considerations. The Wales Regulations do not substantially affect the provisions of an Act of Parliament or Assembly Measure, they do not amend any provision of an Act or Measure, and provide only for consequential updatings of subordinate legislation to reflect changes in Directive terminology and objectives. It was concluded, therefore, that it would not be appropriate to make the Wales Regulations under the affirmative procedure.*"

   Mae'r Pwyllgor yn gwbl fodlon â'r eglurhad hwn. Yn ogystal, mae'n credu ei fod hefyd yn darparu meini prawf pwysig a defnyddiol ar gyfer barnu a ddylid gwneud unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a wneir o dan y pwerau hyn (neu ddeddfwriaeth lle mae gan Weinidogion ddisgresiwn tebyg o ran y weithdrefn y dylid ei defnyddio) drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol.

   Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r memoranda esboniadol sy'n cyfeirio at ddefnydd yn y dyfodol o bwerau o'r fath nodi'n gryno, fel mater o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor, sut y defnyddiwyd y meini prawf a nodwyd yn llythyr y Gweinidog i farnu a ddylid defnyddio'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol.

   (Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol.)

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**22 Mehefin 2011**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2011**

Mae'r Llywodraeth wedi esbonio, drwy lythyr y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb at y Llywydd, pam yr oedd yn angenrheidiol i Reoliadau Cymru gynnwys darpariaethau sy'n cyfeirio at ddarpariaethau yn Rheoliadau Cymru a Lloegr ac yn dibynnu arnynt. O ganlyniad i hyn, nid oedd modd i Reoliadau Cymru gael eu gwneud yn gynt na Rheoliadau Cymru a Lloegr. O ran y Rheoliadau hynny, byddai'r Llywodraeth yn tynnu sylw at y ffaith bod y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn cyflwyno sawl darpariaeth newydd, yn ychwanegol at gydgrynhoi Cyfarwyddebau Gwastraff cynharach, ac yn rhoi pwys ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yr oedd y Llywodraeth felly o'r farn ei bod yn angenrheidiol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid drwy ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Er hynny, yr oedd gan y materion a oedd yn codi o'r ymgynghoriadau effaith ar yr amserlen ar gyfer trosi'r Gyfarwyddeb. Mae'n flin gan y Llywodraeth am hyn, ond mae'n credu bod y ffaith ei bod wedi ymgynghori ac wedi ystyried y materion a gododd o'r ymgynghori wedi helpu i sicrhau bod y Gyfarwyddeb yn cael ei gweithredu'n fwy effeithiol yng Nghymru.

**Atodiad 2**

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**(CSI(4)-01-11)**

**CA582**

**Adroddiad y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Teitl: Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae adran 1 o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 yn rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru bŵer disgresiynol i godi ffi resymol ar oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl (defnyddwyr gwasanaeth). Nid yw'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn bod awdurdod lleol yn ceisio cael unrhyw daliad pan mae'n darparu gwasanaeth, neu'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth y gellir codi tâl amdano; fodd bynnag, mewn achosion pan yw'n ofynnol gan awdurdod lleol godi tâl ar y defnyddiwr gwasanaeth, rhaid i bolisi codi tâl yr awdurdod lleol hwnnw gydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Rheoliadau hyn (ac unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003).

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

Mae anghysondeb rhwng rheoliad 7 (1) (b) (iv) yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r testun. Mae rheoliad 7 (1) (b) (iv) yn y fersiwn Saesneg yn cyfeirio at y geiriau 'am wasanaethau' ('for services') mewn perthynas â 'manylion ynghylch yr uchafswm rhesymol y caniateir ei wneud yn orfodol' ('details of the maximum reasonable charge') yn unol â rheoliad 5, tra mae rheoliad 7 (1) (b) (iv) yn y fersiwn Gymraeg yn hepgor y geiriau 'am wasanaethau' felly nid yw'n glir am ba reswm y mae'r uchafswm rhesymol yn cael ei godi yn unol â rheoliad 5 yn y fersiwn Gymraeg.

(Rheol Sefydlog 21.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 21.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft).

**Rhinweddau: craffu**

Gweler CLA(4)-01-11(p1) ar gyfer y pwyntiau a nodwyd i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**22 Mehefin 2011**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011**

Mae'r pwynt adrodd wedi ei dderbyn. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu dwyn deddfwriaeth ddiwygio gerbron cyn gynted â phosibl, o fewn tri mis i'r Rheoliadau ddod i rym ar yr hwyraf.

**Atodiad 3**

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**(CSI(4)-01-11)**

**CA583**

**Adroddiad y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Teitl: Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae adran 1 o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 yn rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru bŵer disgresiynol i godi ffi resymol ar oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl. Mae'r Rheoliadau'n amlinellu nifer o ddarpariaethau y mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â hwy wrth arfer y pŵer hwn.

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Rheoliad 2 (1) (tudalen 5) – 'hawlogaeth sylfaenol' – o ganlyniad i baragraffau (a) a (b) gall premiwm anabledd difrifol gael ei atal os telir ef, mae testun y ddau baragraff yn cyfeirio'n anghywir at 'os telir ef', sy'n creu amwyster. (Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol)

2. Rheoliad 2 (1) (tudalen 7) – ystyr 'cyfleuster ymweliadau cartref' yw ymweliad neu ymweliadau gan swyddog priodol awdurdod lleol â **chartref** cyfredol D. Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at …**gartref neu breswylfa.** (Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft)

3. Rheoliad 2 (1) (tudalen 7) – 'mewn ysgrifen'. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at 'eiriau neu ffigurau' ('words or figures'); fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at 'eiriau a ffigurau'.

4. Rheoliad 2 (1) (tudalen 8) – ystyr “defnyddiwr gwasanaeth” yw oedolyn y cynigiwyd iddo, neu sy’n cael, gwasanaeth a ddarperir **neu wedi’i ddiogelu** (‘or secured’) gan awdurdod lleol. Mae’r testun Cymraeg yn hepgor y geiriau **neu wedi’i ddiogelu** (‘or secured’)**.** (Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft).

5. Rheoliad 7 (4) (b) (tudalen 11) - Mae’r testun Saesneg yn darparu bod yn **rhaid** i wahoddiad sy’n gofyn am asesiad o fodd gynnwys manylion llawn am bolisi’r awdurdod lleol ar godi ffioedd hefyd gynnwys y wybodaeth yn is-baragraff (1) - (v). Nid yw’r cyfieithiad Cymraeg yn ei gwneud yn **ofynnol** bod gwybodaeth o’r fath yn cael ei chynnwys. (Rheol Sefydlog 21.2 (vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft).

6. Rheoliad 7 (4) (e) (tudalen 12) – Mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at is-baragraff (d), ond mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at (dd) yn lle (ch). (Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft).

7. Rheoliad 7 (4) (i) yn y Saesneg, (ff) yn y Gymraeg - Mae’r testun yn cyfeirio at unigolion yn lluosog. Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at unigolion i ddechrau, ond wedyn yn mynd ymlaen i gyfeirio at un unigolyn - ‘gysylltu ag ef’. (Rheol Sefydlog 21.2 (vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft).

**Rhinweddau: craffu**

Gweler CLA(4)-01-11(p1) ar gyfer y pwyntiau a nodwyd i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3.

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**
**22 Mehefin 2011**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011**

Derbynnir y pwyntiau adrodd. Mae’r Llywodraeth yn bwriadu dwyn deddfwriaeth ddiwygio gerbron cyn gynted â phosibl a beth bynnag cyn pen tri mis ar ôl i’r Rheoliadau hyn ddod i rym.

[Derbyniodd y Pwyllgor gadarnhad llafar fod y cywiriad wrth gyhoeddi wedi digwydd ers i’r adroddiad drafft ac ymateb y llywodraeth gael eu paratoi]

**Atodiad 4**

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**(CSI(4)-01-11)**

**CA593**

**Adroddiad y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Teitl: Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i sampl o broseswyr llaeth ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â phrisiau a osodir ar gyfer gwerthu cynhyrchion llaeth ar ôl iddynt gael eu prosesu. Bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cyfleu'r wybodaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

Mae Rheoliad 4 (2) yn datgan bod unrhyw berson nad yw'n cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 2 (1) yn euog o dramgwydd. Rheoliad 3 (1) yn hytrach na rheoliad 2 (1) sydd yn darparu i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'r fath. Nid yw rheoliad 2 (1) yn bodoli.

(Rheol Sefydlog 21.2 (vi), ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

**Rhinweddau: craffu**

Gweler CLA(4)-01-11 (p1) ar gyfer y pwyntiau a nodwyd i fod yn destun adroddiad i dan Reol Sefydlog 21.3.

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**
**22 Mehefin 2011**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2011**

Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod pwynt craffu technegol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn wall teipograffyddol. Gellir gwneud y gwiriad priodol i'r gwall hwn wrth i'r Rheoliadau gael eu cyhoeddi ddiwedd mis Mai 2011. Cefnogir ymateb y Llywodraeth fel a ganlyn:

1. Mae'r nodyn esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi fod methu â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu a geir yn y Rheoliadau yn dramgwydd ac y dylai'r cyfryw hysbysiadau gael eu cyflwyno o dan reoliad 3. Pan fo amwysedd yng nghorff y Rheoliadau, bydd y nodiadau esboniadol, er nad ydynt yn gyfreithiol rwymol, yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r darllenydd i gyrraedd dehongliad.

2. Nid oes rheoliad 2(1) yn y Rheoliadau. O gofio, yn y cyd-destun fod hysbysiadau'n cael eu cyflwyno o dan reoliad 3 a'i bod yn dramgwydd o dan reoliad 4 i fethu â chydymffurfio â'r cyfryw hysbysiad, y mae'n annhebygol y gall dyfynnu rheoliad 2(1) anghywir olygu unrhyw beth arall ond mai gwall teipograffyddol ydyw y dylai fod wedi ei ddyfynnu yn rheoliad 3(1).

3. Cyhoeddiad Bennion yw'r awdurdod cyfreithiol cydnabyddedig ar ddehongli statudol. Rhoddir enghraifft yn Bennion o arfer dderbyniol y llysoedd i ddehongli i offerynnau statudol er mwyn gwirio gwall gan roi effaith ymarferol i fwriad y deddfwr pan fo gwall teipograffyddol yno.

**Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth**

Mae'n amlwg bod rhoi rheoliad 2(1) yn lle'r hyn a ddylai gael ei ddarllen fel rheoliad 3(1) yn wall teipograffyddol amlwg. Gellir gwneud y cywiriad priodol i'r gwall hwn wrth i'r Rheoliadau gael eu cyhoeddi. Cefnogir hyn gan y rhesymau a nodwyd yn 1 – 3 uchod.

[Derbyniodd y Pwyllgor gadarnhad llafar fod y cywiriad wrth gyhoeddi wedi digwydd ers i'r adroddiad drafft ac ymateb y llywodraeth gael eu paratoi]

**Atodiad 5**

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**(CSI(4)-01-11)**

**CA594**

**Adroddiad y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Teitl: Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2011**

**Gweithdrefn**: **Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 i'w gwneud yn ofynnol i'r person sy'n rheoli cartref gofal feddu ar lefel gymhwyster sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â'r rôl honno ac iddo fod wedi ei gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru. Maent yn gwneud diwygiadau canlyniadol hefyd i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rhinweddau: craffu**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau hyn o dan Reol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.
Yn sgil pryderon cyhoeddus a leisiwyd yn ddiweddar ynghylch rheoli a rhedeg cartrefi gofal sy'n darparu gwasanaethau i oedolion, bydd Aelodau'r Cynulliad o bosibl yn dymuno nodi bod y Rheoliadau hyn yn cyflwyno trefniadau newydd i'w gwneud yn ofyniad cyfreithiol bod holl reolwyr cartrefi gofal i oedolion yn cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru er mwyn bodloni gofynion y rôl.
Gosodwyd yr offeryn yn ystod y Trydydd Cynulliad ac nid oedd yn bosibl adrodd arno o fewn yr 20 diwrnod arferol. Mae gwybodaeth ychwanegol am y broses hon ar gael yn yr adroddiad (rhif cyfeirnod y ddogfen a osodwyd: CR-LD8540) gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol blaenorol a osodwyd ar 31 Mawrth 2011.

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**22 Mehefin 2011**

**Atodiad 6**

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**(CSI(4)-01-11)**

**CSI1**

**Adroddiad y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Teitl: Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011**

**Gweithdrefn**: **Cadarnhaol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn gwneud cynlluniau i ymgymerwyr carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr fabwysiadu carthffosydd preifat a draeniau ochrol preifat o dan adran 102 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 ("y Ddeddf").

**Materion technegol: craffu**
O dan Reol Sefydlog 21.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

Ni wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog.

[Rheol Sefydlog 21.2(ix): nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

**Rhinweddau: craffu**
O dan Reol Sefydlog 21.3, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

Bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfran helaeth o'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn rhoi dyletswydd statudol ar ymgymerwyr carthffosiaeth i ddarparu, cynnal ac ymestyn system o garthffosydd cyhoeddus i sicrhau bod yr ardal yn cael ei draenio'n effeithiol, a bod hynny'n parhau i ddigwydd. Er bod Deddf 1991 yn darparu ar gyfer mabwysiadu gwirfoddol fel rhan o'r system garthffosiaeth gyhoeddus o ran cysylltu carthffosydd a draeniau ochrol â'r system honno, nid yw hyn yn ofynnol, felly mae system helaeth o garthffosydd preifat wedi datblygu ers 1937. Amcangyfrifir bod 50 y cant o eiddo yng Nghymru a Lloegr wedi'i gysylltu â charthffosydd preifat mewn un ffordd neu'r llall. O ganlyniad, mae'r cyfrifoldeb am y carthffosydd hyn yn cael ei rannu gan berchenogion yr eiddo y mae'r carthffosydd hynny'n eu gwasanaethu. Bydd y Rheoliadau hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y carthffosydd a draeniau ochrol i'r cwmnïau dŵr a

charthffosiaeth. Bydd hyn yn cynnwys carthffosydd a draeniau ochrol sy’n draenio adeiladau preswyl a masnachol.

Mae’r Rheoliadau hyn yn cynnwys cymal machlud. Mae cymal machlud yn darparu bod effaith y Ddeddf yn darfod ar ôl dyddiad penodol. Mae Rheoliad 1(2) yn datgan “these regulations… cease to have effect at the end of 30th June 2018.” Mae’r memorandwm esboniadol yn esbonio pam mae cymal machlud yn angenrheidiol yn yr achos hwn. Mae’n datgan:

*“the regulations that implement the transfer of private sewers will affect the transfer by requiring water and sewerage companies to use their existing powers under the Water Industry Act 1991 to declare sewerage assets to be vested in them as “public” sewerage assets. They will be required to make declarations in respect of private sewers, laterals and associated pumping stations which are connected to the public sewerage system on a date specified in the regulations. This exercise is a single operation such that, once over the transitional period specified in the regulations they will have no on-going effect.”*

Mae’r memorandwm esboniadol yn ddryslyd oherwydd ei fod yn datgan: “no sunset clause is therefore proposed for these regulations.” Mae hyn yn anghywir ac mae cyfreithwyr y Llywodraeth wedi nodi’r gwall.

[Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad].

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**
**22 Mehefin 2011**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Pwyntiau technegol:**

**Rheoliadau’r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011**

Mae’r rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU yn unol â gofynion statudol.  Bernir felly nad yw’n rhesymol ymarferol i’r rheoliadau hyn gael eu gosod ar ffurf drafft, na’u gwneud, yn ddwyieithog.

**Pwyntiau ynglŷn â’r Rhinweddau:**

**Rheoliadau’r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau i Fabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011**

Rwy'n ddiolchgar am adroddiad drafft y Pwyllgor. Fel y mae'r adroddiad drafft yn ei nodi, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeiliorni wrth ddatgan nad oes cymal machlud yn y Rheoliadau.  Er hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan yn gywir bod cymal machlud yn y Rheoliadau.  Er fy mod yn gresynu at y camgymeriad hwn, nid wyf yn credu y byddai unrhyw gamau i'w gywiro, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, yn briodol.

**Atodiad 7**

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**(CSI (4)-01-11)**

**CSI2**

**Adroddiad y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**Teitl: Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011**

**Gweithdrefn**: **Cadarnhaol**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn creu swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"). Mae adran 2 o'r Mesur yn darparu bod y Comisiynydd yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru. Wrth benodi'r Comisiynydd, mae Prif Weinidog Cymru o dan ddyletswydd i gydymffurfio â rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y penodiad (y cyfeirir atynt yn y Mesur fel "rheoliadau penodi"). Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau hyn i gydymffurfio â'u dyletswydd i wneud rheoliadau penodi. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnull panel dethol a'i aelodaeth. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion sydd i'w dilyn gan Brif Weinidog Cymru wrth benodi'r Comisiynydd a'r wybodaeth a'r hyfedredd yn y Gymraeg sy'n rhaid i berson a benodir yn Gomisiynydd eu cael.

**Materion Technegol: craffu**
Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**Rhagoriaethau: craffu**
O dan Reol Sefydlog 21.3[1], gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r pwyntiau a ganlyn mewn perthynas â'r offeryn:

i) Dyma'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan y Mesur. Cafodd y trefniadau ar gyfer penodi'r Comisiynydd eu trafod yn ystod y Trydydd Cynulliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a chan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, fel rhan o'u gwaith craffu ar y Mesur yn ystod cyfnod 1. Tynnodd y ddau bwyllgor sylw at y trefniadau penodi arfaethedig, gan nodi eu pryderon ynghylch annibyniaeth dybiedig y Comisiynydd. Yn benodol, wrth graffu ar y Mesur, nododd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 bryderon ynghylch creu sefyllfa lle y byddai'r Prif Weinidog

[1] Rheol Sefydlog 21.3(ii) "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."

yn penodi'r Comisiynydd. Argymhellodd y Pwyllgor mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddylai fod yn gyfrifol am benodi'r Comisiynydd.

ii) Dywedodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn ei adroddiad:

*"58. Ni chredwn ei bod yn rhan o'n cylch gwaith i wneud sylwadau o ran a yw'r trefniadau penodi yn yr achos hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyfeiriad gwleidyddol ac annibyniaeth. Fodd bynnag, credwn y bydd y mater hwn yn ffactor allweddol wrth sefydlu hygrededd y Comisiynydd ymhen amser. Credwn fod hwn yn faes lle y dylai Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol gael cyfle i ystyried a phenderfynu a yw'r trefniadau a gaiff eu cyflwyno yn y diwedd yn cyflawni'r cydbwysedd hwn. Am y rheswm hwn, credwn y dylai'r rheoliadau penodi perthnasol gael eu gwneud gan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol."*

iii) Er na chafodd yr argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, cyflwynodd y Llywodraeth welliannau i'r Mesur arfaethedig yn dilyn hynny, er mwyn sicrhau bod y rheoliadau a fydd yn rheoli penodiad y Comisiynydd bellach yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae Rheoliad 2(d) hefyd yn gwneud darpariaeth a fyddai'n galluogi pwyllgor perthnasol i enwebu Aelod Cynulliad i eistedd ar y panel dethol, er nad oes eglurder ynghylch sut y bydd hynny'n gweithio'n ymarferol.

iv) Mae'r Rheoliadau yn diffinio "pwyllgor perthnasol" fel "un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr estynnir gwahoddiad iddo gan Weinidogion Cymru i enwebu." Nid yw'r Rheoliadau yn darparu unrhyw ganllawiau ynghylch pa bwyllgor y caiff Gweinidogion wahodd i enwebu Aelod i eistedd ar y panel, ac mae'n bosibl y gallai anawsterau ymarferol godi os estynnir gwahoddiad ar adeg pan na fydd unrhyw bwyllgor mewn sefyllfa i wneud enwebiad (er enghraifft, oherwydd y toriad). Mae'n bosibl, felly, y bydd Aelodau am ofyn am eglurhad gan Weinidogion ynghylch sut y maent yn bwriadu rhoi'r ddarpariaeth hon ar waith yn ymarferol.

v) Efallai y bydd y Pwyllgor am nodi bod paragraff 3(1) (b) o Atodlen 1 i'r Mesur yn datgan bod yn rhaid i'r Prif Weinidog roi ystyriaeth i argymhellion y panel dethol.

**Y Pwyllgor Offerynnau Statudol**
**22 Mehefin 2011**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Ymateb o ran Rhinweddau – Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar y pryderon a godwyd gan Aelodau'r Cynulliad ynghylch penodi Comisiynydd y Gymraeg a'r weithdrefn ddeddfwriaethol ar gyfer y Rheoliadau.  Bydd y Rheoliadau hyn yn mynd drwy'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol ac maent yn darparu rôl i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y broses sy'n arwain at benodi'r Comisiynydd gan y Prif Weinidog.

Bwriad y Llywodraeth fyddai gwahodd Pwyllgor y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am graffu ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg i enwebu Aelod o'r Cynulliad i eistedd ar y panel dethol.  Ond, rhag ofn na fydd Pwyllgor o'r fath yn bodoli, mae rheoliad 2(ch) wedi ei ddrafftio i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wahodd Pwyllgor arall i enwebu Aelod o'r Cynulliad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr angen i benodi Comisiynydd a'r angen o ganlyniad i alw panel dethol yn wybyddus ymlaen llaw. Felly, bydd y Llywodraeth hon yn cymryd camau i ohebu â'r Pwyllgor yn ystod tymor y Cynulliad. Ond, weithiau efallai bydd angen ysgrifennu at y Pwyllgor yn ystod toriad.

.